# Datblygiad Iaith Cynnar

## Siarad â'ch plentyn

- Mae plant yn dysgu iaith drwy wrando ar bobl yn siarad.
- Siaradwch am bethau fel y maent yn digwydd wrth chwarae ac mewn gweithgareddau bob dydd e.e. amser bath, siopa, pobi ac amser bwyd.
- Gallwch chi helpu trwy siarad â'ch plentyn drwy ddefnyddio brawddegau syml byr. E.e. "Dyna gar glas", "Rydyn ni'n hongian y golch", "Rwyt ti'n reidio dy feic", "Rydyn ni'n golchi ein dwylo", "Dyna falŵn coch" ac ati.

## Ewch lawr i lefel y plentyn

- Wrth siarad neu chwarae gyda'ch plentyn ewch lawr i'w lefel fel eich bod wyneb yn wyneb â nhw e.e. os ydyn nhw'n chwarae ar y llawr, ewch i lawr ar y llawr gan chwarae gydag nhw
- Bydd hyn yn gwneud cyfathrebu'n haws ac yn fwy pleserus i'ch plentyn.

## Rhoi Dewisiadau

- Rhowch ddewisiadau i'ch plentyn.
- Gallwch wneud hyn drwy gydol y dydd e.e. wrth wisgo, chwarae, siopa neu amser byrbryd.
- Gwnewch yn siŵr fod eich plentyn yn gweld yr eitem y mae'n ei dewis. Mae hyn yn helpu eich plentyn i ddysgu geiriau eitemau ac yn rhoi cyfle i'ch plentyn gyfathrebu.

## Dweud hyn yn ôl yn y ffordd gywir

- Os yw eich plentyn yn ynganu gair yn anghywir, ynganwch y gair yn ôl yn y ffordd gywir.
- Peidiwch â gwneud i'ch plentyn ei ailadrodd.
- Bydd hyn yn helpu eich plentyn i ddweud y gair yn gywir.

## Cani i'ch plentyn

- Bydd canu hwiangerddi a chaneuon actol yn helpu eich plentyn i wrando ar eiriau a'u deall.
- Canwch ganeuon dro ar ôl tro i'ch plentyn fel ei fod yn dod yn gyfarwydd â'r geiriau a dysgu beth sy'n dod nesaf.
- Anogwch eich plentyn i ymuno â'r symudiadau yn ystod y caneuon.

## Siarad a chwarae

- Ceisiwch dreulio amser gyda'ch plentyn bob dydd yn chwarae teganau a darllen llyfrau.
- Siaradwch â'ch plentyn pan fyddwch chi'n chwarae/darllen gyda'ch gilydd.
- Peidiwch â gofyn gormod o gwestiynau, ceisiwch wneud sylwadau ar chwarae eich plentyn gan ddefnyddio iaith syml.
- Ailadroddwch enw'r eitemau ar gyfer eich plentyn sawl gwaith.
- Bydd hyn yn helpu eich plentyn i ddysgu geiriau newydd.

## **Gweithgareddau posibl**

Pi-po

- Mae Plant wrth eu bodd yn chwarae pi-po.
- Mae hyn yn ffordd wych o wylio ac aros.
- Dywedwch yr un geiriau dro ar ôl tro i helpu'r plentyn i ddysgu.

Swigod

- Anogwch eich plentyn i edrych arnoch chi.
- Defnyddiwch eiriau megis 'rhagor' neu 'pop pop pop'

Canu

- Mae caneuon a hwiangerddi yn llawer o hwyl i'ch plentyn
- Maen nhw wrth eu bodd yn clywed yr un gân dro ar ôl tro.
- Gwnewch symudiadau i gyd-fynd â'r caneuon, arhoswch i weld a yw'ch plentyn yn eich copïo.

Llyfrau

- Edrychwch ar y lluniau gyda'ch gilydd (heb roi pwyslais ar ddarllen geiriau)
- Siaradwch am beth yr ydych yn ei weld
- Gwnewch synau hwyliog i gadw diddordeb eich plentyn e.e. "brrm, aeth y car", "wiiii, i lawr y sleid"

Peli

- Cymerwch eich tro wrth daflu neu rolio'r bêl
- Dywedwch "Ar eich marciau, barod ……ewch" bob tro
- Arhoswch i'ch plentyn edrych arnoch chi cyn ei rolio'n ôl.

Pentyrru cwpanau/blociau adeiladu

- Adeiladwch dyrau gyda'ch gilydd a'u dymchwel
- Cymerwch eich tro i osod y brics yn eu lle
- Cuddiwch wrthrychau o dan y cwpanau
- Defnyddiwch eiriau syml, fel 'wedi mynd', 'bang bang' a 'wedi cwympo'

## Awgrymiadau Defnyddiol ar gyfer Siarad

**Amser Arbennig:** Treuliwch rywfaint o 'amser tawel' gyda'ch plentyn bob dydd lle gallwch chi fwynhau chwarae a siarad gyda'ch gilydd. Siaradwch â'ch plentyn ynglŷn â beth y mae'n ei wneud pan fydd yn chwarae.

**Amser Tawel:** Mae tai yn llefydd swnllyd. Lleihewch y sŵn trwy ddiffodd y teledu pan fyddwch chi'n chwarae gyda'ch plentyn. Mae'n haws i blant wrando a dysgu heb y sŵn ychwanegol yn y cefndir.

**Wyneb yn wyneb:** Eisteddwch, penliniwch neu gorweddwch fel y gall eich plentyn weld eich wyneb pan fyddwch yn chwarae ac yn siarad gyda'ch gilydd. Bydd edrych ar eich gilydd yn helpu eich plentyn i ddeall pa mor bwysig yw siarad.

I helpu eich plentyn ddatblygu ei leferydd a'i iaith, rhowch lawer o ganmoliaeth ac anogaeth iddo adeiladu ei hyder. Trwy annog eich plant i gyfathrebu, gallwch chi eu helpu i fod y siaradwyr gorau y gallant fod!

## Amser Siarad Arbennig

Dewch o hyd i 10 munud y dydd ar gyfer "Amser Siarad Arbennig"

Dylech gadw'r canlynol mewn cof:

- Dim ond chi a'ch plentyn

- Ar amser tawel (Teledu wedi'i ddiffodd)
- Pan nad yw eich plentyn wedi blino neu'n llwglyd
- Pan allwch roi 100% o'ch sylw i'ch plentyn
- Amser heb ddymi (ceg wag yn gwneud siarad yn haws)
- Hwyl!

## Gwylio Teledu

- Dewiswch raglenni a fideos yn ofalus.
- Gwnewch yn siŵr nad yw eich plentyn yn gwylio gormod o deledu.
- Gwyliwch deledu gyda'ch gilydd a siaradwch am beth sy'n digwydd.
- Diffoddwch y teledu pan fyddwch yn chwarae neu'n darllen gyda'ch plentyn.
- Mae'n anodd gwrando pan fydd sŵn yn y cefndir.

## Llyfrau

Mae edrych ar lyfrau gyda'ch plentyn yn ffordd dda o helpu i ddatblygu ei iaith leferydd.

Gwnewch yn siŵr ei bod hi'n "Amser Siarad Arbennig":

- Un i un
- Amser tawel
- Pan nad ydych yn llwglyd neu wedi blino
- Dim dymis!

Gwnewch yn siŵr eich bod wyneb yn wyneb:

- Ar y llawr
- Wrth y bwrdd
- Wrth eistedd ar gadair

Gwyliwch ac arhoswch i'ch plentyn ymateb:

- Edrychwch ar eich plentyn i weld a yw'n dangos diddordeb
- Arhoswch i'ch plentyn gymryd tro. Gall hyn fod yn ystum, yn air neu'n sŵn.
- Dangoswch eich bod yn gwrando trwy roi cyswllt llygaid ac ymateb.

Gwnewch yn siŵr eich bod yn:

- Defnyddio llais brwdfrydig
- Defnyddio ystumiau
- Defnyddio geiriau hwyliog
- Siarad yn araf ac yn glir
- Copïo beth mae eich plentyn yn ei ddweud
- Gwneud sylwadau ar beth mae eich plentyn yn ei wneud